Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ysbyty Ifan

**Ysbyty Ifan**
**Betws y Coed**
**Conwy**
**LL24 0NY**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Ysbyty Ifan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Ysbyty Ifan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 18 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 14 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae ethos cyfeillgar a chynnes yn nodwedd gref yn ysgol Ysbyty Ifan, lle mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn awyrgylch cartrefol yr ysgol. Mae parch disgyblion at ei gilydd ac at ymwelwyr yn amlwg. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, ac mae'r staff yn eu hannog i fod yn gwrtais a chyfeillgar. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn.

Mae arweinwyr yn adnabod rhai o gryfderau'r ysgol ac yn ymwybodol o'r blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon llwyddiannus wrth fynd i'r afael â gwendidau sylfaenol yn ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Er enghraifft, nid yw ansawdd yr addysgu yn ddigon cadarn yn yr ysgol, ac nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn ddigon effeithiol.

Yn gyffredinol, mae staff yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda, gan sicrhau bod bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon strategol i adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn ddigonol nac yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n ddigon heriol iddynt ar draws pob maes dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau o'u mannau cychwyn, yn enwedig eu medrau sylfaenol.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol ac yn adnabod ei chymuned yn dda. Maent yn dechrau adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella, ond mae bylchau amlwg yn eu gwybodaeth ynglŷn ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Nid ydynt yn herio arweinwyr yn ddigon effeithiol a'u dwyn i gyfrif fel ffrind beirniadol. Yn ogystal, nid yw'r polisi diogelu na threfniadau hyfforddiant yn ddigon cadarn.

Mae'r pennaeth wedi creu gweledigaeth glir i hyrwyddo cymuned ofalgar sy'n blaenoriaethu parch, Cymreictod a balchder lleol. Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni, gan eu cynnwys mewn digwyddiadau a rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol yn hybu balchder disgyblion yn eu treftadaeth.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion yn llawn

A3 Gwella'r addysgu, gan roi sylw penodol i godi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni a chynyddu lefel yr her i ddisgyblion o bob gallu

A4 Cryfhau arweinyddiaeth strategol yr ysgol a gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn codi safonau a chryfhau'r ddarpariaeth

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

## Prif arfarniad

Mae’r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth bwrpasol i greu cymuned ysgol ofalgar sy’n blaenoriaethu parch, Cymreictod a balchder disgyblion yn eu bro. Mae staff yn adnabod y disgyblion a’u teuluoedd yn dda ac, o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn perthyn i ysgol Ysbyty Ifan.

Mae gan arweinwyr brosesau addas i adnabod rhai cryfderau a meysydd i’w gwella yn yr ysgol. Er hyn, dros amser, nid yw arweinwyr wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth roi gwelliannau ar waith. Nid ydynt wedi defnyddio canfyddiadau eu prosesau hunanwerthuso yn ddigon effeithiol ar gyfer cynllunio a sicrhau gwelliannau cynaliadwy i wella elfennau pwysig o’r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae nifer o argymhellion o arolygiad blaenorol Estyn yn parhau i fod yn faterion pwysig i’w cryfhau yn yr ysgol, gan gynnwys gwella medrau rhifedd a digidol disgyblion, dulliau asesu’r athrawon, yn ogystal â chryfhau trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella’r ysgol

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol. Maent yn adnabod y gymuned mae’n ei gwasanaethu yn dda. Mae’r llywodraethwyr yn cychwyn chwarae rôl ym mywyd yr ysgol drwy gynnal arsylwadau dysgu ac addysgu i adnabod rhai cryfderau a meysydd i’w gwella. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn derbyn gwybodaeth am yr ysgol yn amserol, fodd bynnag, nid yw’r wybodaeth hon bob tro’n adlewyrchu sefyllfa’r ysgol yn gywir ac, o ganlyniad, nid yw’r llywodraethwyr yn ddigon gwybodus am nifer o agweddau pwysig y mae angen i’r ysgol eu gwella, fel elfennau o’r addysgu. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn herio arweinwyr yn ddigon effeithiol nac yn eu dwyn i gyfrif i wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Yn ogystal, nid yw’r polisi diogelu na threfniadau hyfforddiant yn ddigon cadarn.

Mae arweinwyr yn cynnig ystod addas o gyfleoedd i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ac ymweld ag ysgolion cyfagos, sy’n cysylltu â rhai o flaenoriaethau strategol yr ysgol. Er enghraifft, mae staff wedi mynychu hyfforddiant ynglŷn â sut i ddatblygu rhifedd ar draws yr ysgol. Serch hynny, mae effaith y cyfleoedd hyn ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu yn aneffeithiol. Dros amser, nid yw arweinwyr wedi mynd i’r afael â thanberfformiad athrawon yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn ystyriol o les a baich gwaith staff; er enghraifft, caiff athrawon gyfleoedd pwrpasol i rannu sesiynau cynllunio, paratoi ac asesu. Fodd bynnag, nid yw’r athrawon yn cynllunio’n ddigon bwriadus i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd digonol dros amser. Nid yw’r addysgu yn datblygu’r ystod lawn o fedrau’r disgyblion nac yn eu herio’n ddigon pwrpasol ar draws yr ystod gallu. O ganlyniad, mae bylchau

amlwg yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Mae staff yn datblygu perthnasoedd gwaith cynnes a chartrefol â'r disgyblion. Mae hyn yn elfen nodedig o'r ysgol. Maent yn adnabod bob unigolyn yn dda, ac o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwybod at bwy i droi pe byddent yn pryderu am unrhyw beth ac yn hyderus y bydd staff yn ymdrin â'u pryderon yn briodol. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau'r ysgol o ran ymddygiad ac, o ganlyniad, mae ymddygiad ar draws yr ysgol yn dda iawn. Mae bron bob disgybl yn ymateb yn garedig a chwrtais tuag at staff ac ymwelwyr.

Ar y cyfan, mae medrau llafar a darllen llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac maent yn caffael dealltwriaeth sylfaenol o rif o oed cynnar. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddiffyg cynllunio pwrpasol, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ysgrifennu'n ymestynnol, nac ychwaith i ddatblygu cysyniadau mathemategol digon eang yn fwriadus. Prin yw'r cyfleoedd hefyd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol. O ganlyniad, mae'r raddfa y mae'r disgyblion yn caffael y medrau hyn yn gyfyng.

Mae'r staff yn creu amgylchedd ddysgu gynhwysol gan feithrin awyrgylch ofalgar, sy'n hybu agwedd gadarnhaol at ddysgu ymysg y disgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda, ac o fewn sesiynau dysgu, maent yn darparu cefnogaeth briodol iddynt gan sicrhau cyflymder priodol i'r gweithgareddau dysgu. Mae'r staff yn holi disgyblion yn fedrus i adalw dysgu blaenorol a chadarnhau dealltwriaeth. Yn gyffredinol, mae staff yn darparu adborth llafar addas i gefnogi disgyblion i wybod beth maent yn ei gyflawni'n dda, er prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion wella a mireinio cynnwys ac ansawdd eu gwaith yn dilyn adborth. Mae'r staff yn arddel yr iaith Gymraeg yn bwrpasol, sy'n nodwedd gref o'r ysgol. O ganlyniad, mae medrau llafar a darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol.

Er bod ychydig o elfennau cadarnhaol yn yr addysgu, mae cyfran uchel ohono yn aneffeithiol. Nid oes gan staff ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y dylai'r disgyblion ei gyflawni ac nid ydynt yn cynllunio'n ddigon effeithiol i ddatblygu ystod lawn o fedrau'r disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol o ran caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Yn ogystal, mae tueddiad i athrawon or-arwain y dysgu ac nid ydynt bob amser yn gadael i ddisgyblion wneud dewisiadau am y ffordd y maent eisiau cyflwyno eu gwaith. Mae hyn yn cyfyngu a'r allu'r disgyblion i wneud penderfyniadau, i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni. Mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus eu bod yn gallu trafod lles ac addysg eu plant. Caiff gwybodaeth berthnasol ei rhannu'n effeithiol â'r rhieni drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu. Mae aelodau'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gweithio'n ddiwyd i godi arian i wella cyfleusterau'r ysgol, fel cynnal noson bingo a raffl, ar gyfer prynu adnoddau pêl-droed i'r disgyblion eu defnyddio yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r ysgol yn rhan greiddiol o gymuned Ysbyty Ifan. Mae disgyblion yn chwarae rôl amlwg yn y pentref, er enghraifft drwy gydweithio i greu logo newydd i eglwys Hafan Ifan. Mae hyn yn hybu balchder bron bob disgybl yn eu cymuned leol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/01/2025